



Newyddion Pensiynau Gwent

Cylchlythyr ar gyfer Aelodau Gweithredol a Gohiriedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gyda Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Croeso gan y Rheolwr Pensiynau

Croeso i rifyn haf 2019 o Newyddion Pensiynau Gwent, ein cylchlythyr i roi'r newyddion diweddaraf i chi am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a materion amserol eraill yn ymwneud â phensiynau.

Mae'r rhifyn yma'n cynnwys cael gweld eich datganiad buddion blynyddol ar gyfer 2018/19, newidiadau ar gyfer siarad â ni wyneb yn wyneb a chysiau cynllunio ar gyfer ymddeoliad. Mae'r cylchlythyr hefyd yn sôn wrthy ch chi am gadw manylion yn gyfredol, gofyn am amcangyfrifon a'r gwaharddiad ar ffonio diwahoddiad am bensiynau.

Cofion Gorau

Jo Griffiths

Joanne Griffiths
Rheolwr Pensiynau



My Pension Online

Have you signed up to see your own pension account?

To sign up go to our website www.gwentpensionfund.co.uk and click on My Pension Online (at the top of the screen)



Eich Datganiad Pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer 2018/19

Mae eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2018/19 nawr ar gael ar eich cyfrif **My Pension Online**.

Os nad ydych chi wedi cofrestru eto i weld eich cyfrif My Pension Online –

ewch at ein gwefan

www.gwentpensionfund.co.uk a

chliciwch ar ddolen My Pension Online ar ben y sgrin. Mae yna 3 cham syml ar gyfer cofrestru gyda My Pension Online:

Cam 1 – Teipiwch eich **Rhif Yswiriant Gwladol** a'ch **Cod Post**.

Cam 2 – Dewiswch **Enw Defnyddiwr** a **Chyfrinair** ar gyfer eich cyfrif pensiwn.

Cam 3 – Atebwch **gwestiynau diogelwch**.

Byddwn yn danfon rhif adnabod personol trwy'r post i chi gwblhau'r cofrestriad.

Sut mae gweld eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2018/19 – pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif My Pension

Online, cliciwch ar **Documents and Statements** yn y ddewislen ar y chwith.

Mae eich datganiad ar gyfer 2018/19 yn **Benefit Statement Summary**. Cliciwch ar arwydd '+' i'w agor.

Gallwch lawrlwytho'n canllaw at ddeall eich datganiad o'n gwefan www.gwentpensionfund.co.uk o dan adran 'Forms and Publications' — 'guides'

Newidiadau i siarad â ni wyneb yn wyneb



Mae'r Gronfa Bensiwn wedi cyflwyno system newydd apwyntiadau yn unig ar gyfer aelodau'r cynllun sydd am drafod eu pensiwn gydag aelod o staff yn

ein swyddfa. Bydd hyn yn cymryd lle'r drefn bresennol ble mae'r Gronfa Bensiwn wedi ymdrin ag ymholiadau am bensiynau gan unrhyw un sy'n cerdded i mewn.

Rydym wedi gwneud y newid yma er mwyn darparu gwasanaeth mwy proffesiynol ac effeithlon i aelodau'r cynllun. O 1^{af} Awst 2019 bydd angen i bob aelod drefnu apwyntiad o flaen llaw os am drafod eu hawliau pensiwn gyda staff wyneb yn wyneb.

Ble bynnag bo hynny'n bosibl byddwn yn annog aelodau i'n ffonio i drafod unrhyw ymholiadau ynglŷn a'u pensiynau neu i ddanfon e-bost gyda'r ymholiadau.

Sut fydd hyn y gweithio?

- Bydd angen i aelodau ffonio neu ddanfon e-bost i drefnu apwyntiad. Byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu amser sy'n gyfleus i chi, gan ddibynnu a fydd ystafell ar gael.
- Byddwn yn gofyn i chi ddweud yn fras beth yw eich ymholiad. (Fel y gallwn ni sicrhau fod gennym ni'r wybodaeth berthnasol ar gael ar gyfer eich apwyntiad. .
- Bydd pob apwyntiad yn 15 munud o hyd.
- Os na allwn ni ddelio'n llawn gyda'ch ymholiad yn ystod eich apwyntiad byddwn bob amser yn eich ateb ar

ôl eich apwyntiad ar y ffôn, trwy'r post neu e-bost er mwyn delio gyda'ch ymholiad.

- Wrth i chi gyrraedd y Ganolfan Ddinesig, dywedwch wrth y dderbynfa fod gennych apwyntiad i weld Pensiynau a daw aelod o staff i gwrdd â chi.
- Os fydd aelodau'n cyrraedd ac yn gofyn i siarad â'r adran bensiynau, byddwn yn trefnu apwyntiad i chi ddychwelyd i drafod eich ymholiad.

Terfynau Amser i Drosglwyddo

Cofiwch, os ydych chi'n meddwl am drosglwyddo'ch pensiwn CPLIL i pensiwn arall, rhaid i chi

- Beidio â thalu i mewn i'r cynllun; a
- Bod o leiaf blwyddyn i ffwrdd o'ch Oedran Pensiwn Arferol.



Peidiwch â gadael i dwyllwr fwynhau eich ymddeoliad

Dysgwch sut mae twyll pensiwn yn gweithio, sut mae ei osgoi a beth i wneud os ydych chi'n amau twyll

Gall twyll pensiwn fod yn anodd ei weld. Gall twyllwyr fod yn huawdl ac yn wybodus ynghylch arian, â gwefannau, tystlythyrau a deunyddiau credadwy y mae'n anodd gwahaniaethu rhyngddynt â rhai go iawn.

Find out more:

www.fca.org.uk/scamsmart


*YouGov online survey of 1,018 adults aged 45-65 with a pension

FCA FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

The Pensions Regulator

Newyddion yn Gryno

Gwahardd Ffonio Diwahoddiad



Cyflwynodd y llywodraeth ddeddfwriaeth yn gwahardd cwmnïau rhag ffonio'n ddiwahoddiad ynglŷn â'ch pensiwn. Mae hyn nawr yn anghyfreithlon a gallai cwmnïau sy'n torri'r gyfraith gael dirwy o hyd at £500,000.

Os dderbyniwch chi alwad ffôn ynglŷn â'ch pensiwn, nodwch unrhyw wybodaeth sydd ar gael fel enw neu rif ffôn y cwmni a rhowch hi i [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy eu gwefan](#) neu ar 0303 123 1113.

Symud Cartref?

Os ydych chi'n newid cyfeiriad, cofiwch adael i ni wybod — nid y unig er mwyn cadw'r cofnod yn gyfredol ond hefyd i sicrhau nad oes gwybodaeth yn mynd at eich hen gyfeiriad, gan achosi perygl o ddwyn



Lwfans Oes a Lwfansau Blyneddol CThEM ar gyfer 2019/20

Lwfans Oes—£1,055,000

Lwfans Blyneddol—£40,000 ond gall gael ei leihau i gyn lleied â £10,000 gan ddibynnu ar enillion.

Enwebu rhywun ar gyfer eich grant marwolaeth

Fel aelod o'r CPLIL un o'r buddion gwerthfawr sy'n cael ei gynnig yw grant marwolaeth sy'n daladwy pan fyddwch yn marw.

Gallwch lawrlwytho ffurflen mynegi dymuniad o'n gwefan

www.gwentpensionfund.co.uk o'r adran Forms and Publications.

Gofyn am amcangyfrif oddi wrthym



Gallwch ofyn am amcangyfrif o'ch buddion pensiwn CPLIL os ydych chi'n ystyried ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddeall yr incwm y

byddwch yn ei dderbyn gan y CPLIL pan fyddwch yn ymddeol.

Gallwch ofyn am amcangyfrif trwy lenwi ffurflen gais am amcangyfrif. Gallwch lawrlwytho hon o'n gwefan o'r adran Forms and Publications.

Os ydych chi o dan 55 oed neu'n fwy na 2 flynedd i ffwrdd o ddiwrnod posibl eich ymddeoliad, byddwn yn gofyn i chi ddefnyddio'r amcangyfrifydd ar-lein ar My Pension Online i gael amcangyfrif o'r ffigyrau ar gyfer eich ymddeoliad.

Codi uchafswm CPY

Mae'r mwyafswm o bensiwn blyneddol ychwanegol y gallwch ei brynu trwy CPYau wedi codi ar gyfer 2019/20 i £7,026.

Cyrsiau Cynllunio Ymddeoliad Affinity Connect

Mae cynllunio ar gyfer ymddeoliad a dewis cymryd eich buddion o'r CPLIL yn benderfyniad pwysig i chi ei wneud yn y dyfodol.

Gall aelodau'r CPLIL fynychu cyrsiau cynllunio ymddeoliad am ddim gydag Affinity Connect mewn lleoliadau yn ardal Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf.

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais am le o'n gwefan www.gwentpensionfund.co.uk/greater-gwent-torfaen-pension-fund/about-us/keeping-you-informed/

Sesiynau yn y Dyfodol

Lleoliad	Dyddiad	Amser
Pont-y-pŵl	15fed Gorffennaf 2019	9.30am— 3.30pm
Pont-y-pŵl	3ydd Medi 2019	9.30am— 4.30pm
Pont-y-pŵl	18fed Tachwedd 2019	9.30am— 4.30pm

Menter Twyll Genedlaethol

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) ddyletswydd i ddiogelu'r arian yr ydym yn ei weinyddu. Mae hyn y cynnwys cymryd rhan ym Menter Twyll Cenedlaethol y Llywodraeth, ac efallai byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at ddibenion atal a datgelu twyll.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i amddiffyn y pwrs cyhoeddus trwy gymharu data ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, i atal a datgelu twyll.

Mae'r ymgyrch yn digwydd pob dwy flynedd. Ers i'r fenter gychwyn yn 1996 mae hi wedi helpu i ddatgelu £1.3 biliwn mewn twyll, camgymeriadau a gordaliadau ar draws y DU

Mae menter 2018/19 ar droed ar hyn o bryd ac mae gofyn i ni roi gwybodaeth am bensiynwyr i Swyddfa Archwilio Cymru at ddibenion cymharu data.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan y '**Cod Arfer Cymharu Data**' er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r gyfraith, yn arbennig Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Gallwch ddarllen mwy am gymharu data a lawrlwytho'r Cod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: <http://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/menter-twyll-genedlaethol>

Cyfraddau Cyfraniadau ar gyfer 2019/20

Cyflog Blynnyddol	Cyfraniad	
	Prif Adran	Adran 50/50
Hyd at £14,100	5.5%	2.75%
Dros £14,101 a hyd at £22,500	5.8%	2.9%
Dros £22,501 a hyd at £36,500	6.5%	3.25%
Dros £36,501 a hyd at £46,200	6.8%	3.4%
Dros £46,201 a hyd at £64,600	8.5%	4.25%
Dros £64,601 a hyd at £91,500	9.9%	4.95%
Dros £91,501 a hyd at £107,700	10.5%	5.25%
Dros £107,701 a hyd at £161,500	11.4%	5.7%
Dros £161,501	12.5%	6.25%